

ENGLYNION

A39 Revd Richard Morgan, Maesnewydd

Man yw hwn y mae huno – offeiriad
A phuraf wir athro
O allor Crist i'r llawr gro
Gwr Duw oedd, gair da iddo.

Bardd Nantyglyn – Robert Davies 1769-1835 of Nantyglyn Denbighshire also on grave of priest - Llangeitho

A40 Richard Jenkins Ruel Isaf d 31 Nov 1812 (63)

A83 Mary d John Hughes Borth d 6Apr 1808 (1)

B47 Hugh s Evan Hughes (seaman) Borth d 18 Dec 1819 (1)

D92 John s William Evans Llangorwen d 14 Jan 1819 (4)

F67 James s John & Mary Hughes Borth d 3 Aug 1830

Trallodau beiau bywyd – na welais
Na fliniwch o'm plegyd,
Wyf iach o bob afiechyd
Ac yn fy medd, gwyn fy myd.
(Earlier version)

Trallodau beiau bywyd – ni welais
Na wylwch o'm plegyd,
Wyf iach o bob afiechyd
Ac yn fy medd, gwyn fy myd.

Written by Edward Richard c 1770. There are many variations of this englyn. When it is written to the older person the “gair cyrch” becomes “a welais” The oldest version is in Strata Florida and dated 1797.

There are 57 in Ceredigion graveyards of which 5 appear here,

A87 Jane Jones Bowstreet 30 Jun 1873 (3)

Ni welais un anwylach – na merch
Mwynach ei siriolach:
On gwell yw tewi bellach
Yn y bedd y mae Jane fach.

B7 Richard Owens Penygarn d 5 Jul 1851 (46)

Torwyd a bwriwyd i'r bedd - ddau
anwyl
Oedd enwog mewn rhinwedd:
Rhieni cywir unwedd
O mor wael yma yw'r wedd!

B34 William Thomas St Clare Borth d 19 Apr 1895 (20)

Fe lwydodd yn ei flodau, a hunodd
Cyn hanner ei ddyddiau
Ehedodd uwch niweidiau
I fywyd gwell o fyd gau.

B57 Catherine w John Jones d 19 May 1852 (70)

Edrych fwy' mynych fy medd - dysg
hefyd
Dwys gofio dy ddiwedd
I'r gweryd fel rwy'n gorwedd
Yr ei yn wir yr un wedd.

B58 Mary Lewis d Ann & William Davies Borth 25 Aug 1887 (27)

Mary roed yma i orwedd – a lecha
Ei blwch hoff mewn gwaeledd;
Ei hysbryd hyfryd mewn hedd
Gei'r uchod mewn gorwychedd.

ENGLYNION

**B70 Catherine w John Jones Picton
Borth d 25 Mar 1865 (66)**

**D101 Richard Jenkins Tynpynfarch 13
Mar 1865 (82)**

Yr Iôn, pan ddelo'r ennyd – bob
oedran

O'r ddaear a'n cyfyd;
Bydd dorau beddau y byd,
Ar un gair yn agoryd.

*Gair cyrch in D101 is "ar ddiwedd"
Line 2 starts "y ddaear a'n cyfyd".*

*Written by Robert ap Gwilym Ddu from
Eifion was published in 1810 by David
Thomas in "Corph y Gainge" p 289*

*This is the most popular englyn in
Ceredigion if not the whole of Wales. There
are 92 references.*

**B90 Jane w John Hughes Master Mariner
Borth d 17 Oct 1873 (60)**

Cyfyd o'r gweryd er gorwedd – yn lan
Ail unir ei sylwedd,
Fe'i welir mewn gorfoledd;
I wlad bur o waelod bedd.

*There can be a variation of the !st line
which reads "Cyfodant o'r gweryd er
gorwedd, yn iach". (Henfynyw, Aberaeron)*

*Composed by Robert ap Gwilym Ddu –
Robert Williams 1766-1850 Llanystumdwy
Caerns.*

**B106 Jane w Griffith Morgan Berthlwyd
d 2 Jul 1828 (70)**

Er iechyd, hawddfyd a hedd, - er
urddas
Er harddwch a mawredd
Daw awr rhaid mynd i orwedd
O dwrw byd i ddyfnder bedd.

**B122 John Hughes TreTalesin d 19 Jan
1844(69)**

Gwel enaid y gulanedd – gorphwysiad
I gorph sy mewn llygredd;
Lle o dawel neuillduedd
O swm byd sy yn y bedd.

**B157 Jane, John Morgan Berthlwyd d 13
Sept 1852 (19) 18 Aug 1853 (17)**

Einioes nid yw ond ennyd – a diddim
Yw dyddiau ein bywyd
Ein hafiach daith sydd hefyd
I d]r bedd wrth ddod i'r byd.

Yn gorphwys o bwys y byd – yn dawel
O'r diwedd mae'n hysbryd
On ceufedd oer fe'n cyfyd
Ein haf glan i'w fwyn nef glyd

**B161 Mary Davies Borth d 5 Apr 1821
(38)**

Er glendid, rhyddid, aur, heddwch – er
parch
Er perchen hyfrydwch
Er golud aerwy gwelwch
Disgyn raid i'r llaid a'r llwch.

**B165 Mary James Penywern d 23
May 1818 (89)**

Edrych fwy mynych fy medd – dysg
hefyd
Dwys gofio dy ddiwedd
Ir gweryd fel rwyn gorwedd
Yr ei yn wir yr un wedd.

**B173 Sarah Jones Llanfihangel 12 d Feb
1864 (84)**

Trefnus ofalus a fu – mwyn wiwglod
Mewn eglwys a theulu:
Trwy ras aeth at yr Iesu
I drigfan y Ganan gu.

ENGLYNION

D41 Lewis s Lewis & Eleanor Lewis Morfa'r Borth d 5 Mar 1862 (19)

Mae'n gorphwys o bwys y byd – yn
dawl

O fewn daear briddlyd;
A'i anian yn gân i gyd,
Dieiddil mewn dedwyddyd.

D51 Edward s John & Mary Edwards Taigwynion d 8 Jan 1861

E6 Thomas Jones Llandref d 3 Nov 1872 (31)

Edward gadd fore alwad – a dedwydd
Odidawg dderbyniad;
Gan Iesu pur, Modur Mad,
Eu gadarn Dduw ai geidwad.

E6 ("Thomas gadd")

D58 Richard James Master Mariner Borth d 20 Dec 1894 (79)

Dyma weryd y morwr – o gyrhaedd
Gerwin for a'i ddwndwr:
Ei dderbyn ga'dd i harbwr
Heb don ar wyneb y dwr!

D70 Mary w David Griffith Pantyperan d Colwyn 13 Mar 1902 (79)

Huno maent oll am enyd – anwyliaid
Mewn tawelwch hyfryd
Ond cofiwn Duw ai cyfyd
O lwch y bedd i loywach fyd.

D81 Elizabeth w John Roberts Llangorwen d 7 Jul 1855 (65)

Er gwyro i lawr gweryd - ar alwad
Iôr eilwaith fe'm cyfyd
O'm man hwn y'mhen enyd
Yn iach o boen uwch y byd.

D100 John Jenkins Tynpynfarch d 4 Mar 1864 (86)

Oer len ei farwol anedd – o'i ogylch,
A egyr ar ddiwedd;
Daw'r afrifawl dorf ryfedd
Feirwon byd i farn o'u bedd.

D101 Richard Jenkins Tynpynfarch d 15 Mar 1865 (82)

Yr Ion, pan ddelo'r enyd – ar ddiwedd
O'r ddaear a'n cyfyd:
Bydd dorau beddau y byd
Ar un gair yn agoryd.

E8 John s Richard & Eliza Jones Cross Street d 30 Nov 1872 (19)

E28 Mary w Lewis Morris Cwnglô d 19 Nov 1873 (77)

Ystiriwch diwydiwch eich gwedd - bob
oedran

Sy'n edrych fy anedd
Ararfych mae'n daith ryfedd
Symud o'r bywyd i'r bedd.

E27 John s Lewis & Mary Morris Cwnglô d 30 Mar 1859 (22)

Symydwn or byd siomedig - ar fyrder
I fordaith bellenig
Drwy angyr a'i donau dig
I wlad sydd anweledig.

E64 William T Hughes mariner Borth d 6 Jul 1859 (16)

O rwymau muriau marwol – trwy Iesu
Mewn trwsiad ysprydol:
Fe ddring ai lygredd ar ol
I ystafell y llys dwyfol.

ENGLYNION

Fore a hwyr a farrw o byd

E77 Margaret d Richard & Sophia Hughes Penycwm d 27Jul 1861 (12)

Gwel enaid y gul annedd- grophwysiad
I gorph sy mewn llygredd
Lle o dawel neullduedd
O swm byd sy yn y bedd.

*Composed by Emrys – William Ambrose
1813 – 1873 Bangor Caers. He composed
it for Jane Rowlands Talybont the wife of
Richard Rowlands Erglodd who lies buried
in Bethel Talybont.*

E132 Eliza d of John & Anne Griffiths Nantfallen d 27 Jul 1854 (10m)

Ochain na llais afiechyd – mwy nid oes
Mewn dystaw d] priddlyd
Wele y daw anwylyd
Dan un gwys o bwys y byd.

*Composed by Ieuan Cadfan – Evan Breeze
1798 – 1856 Llangadfan*

E140 Lewis Jenkins Tynohir Machynlleth d 29 Aug 1852 (31)

Yn gorphwys o bwys y byd – yn dawel
O'r diwedd mae f'ysbryd:
O'm ceufedd oer fe'm cyfyd
Fy naf glân i'w fwyn nef glyd.

*Daniel Ddu – the earliest example 1834 in
Capelygroes Llanwnen
Daniel Evans 1792-1846 Cribyn buried
Pencarreg*

E144 Jane d Joseph & Elinor Thomas Penygarn d 28 Jun 1837 (22)

Angau ddaw a braw - rhyw bryd
heibio
Ie hywthau ieuencyd
Trowch eich byw trwy eich bywyd

Elinor w Joseph Thomas Penygarn d 29 Mar 1844 (55)

Mai llong ymollyngais – i for y byd
Dros ei ferw byw'r hwyliais
Ni eller gwel'd er llwyr gais
Ty(sic) ol, y lle trafaeliais.

F100 Anne w John James Borth d 19 Jul 1854 (30)

Gwynfyd i'w ebergofi – ydyw dyn
Hyd ei daith, ond gwesgi,
Nid oes braidd einioes ini
Awr yw ein hoes – na wariwn hi.

John James Master Mariner Borth d 8 Aug 1884 (65)

Dyma weryd y morwr – o gyrhaedd
Gerwin fôr a'i ddwndwr:
Ei dderbyn gadd i harbwr
Heb don a'r wyneb y dwr.

F105 Sophia w Edward Owen Alltgoch Henllys d 26 jul 1867 (76)

Is hon S Owens huna – un rodiai
Mewn anrhydedd yma.
Yn ei dydd; ai henw da,
Yn beraidd wna hir bara.

Arweiniodd oes o rinwedd – er ei
rhoi
Dymor hir mewn llygredd
Ior ai cyfyd o'r ceufedd
I'r wlad bur o waelod bedd.

F126 Evan s John & Mary Pugh Bowstreet d 12 Aug 1853 (21)

Byw am enyd y bum ninnau – 'n
rhodio
Ar hyd yr un lllwybrau
Daw dwthwn y do'i dithau

ENGLYNION

I'r cul ddyffryn briddyn brau.

**F129 Eleanor w Capt John Francis
Glanywern d 23 Jan 1877 (49)**

O wlad y terfysgiadau, - ehedodd
I baradwys olau:
Mewn llawn hedd mae'n llawenhau
Uchlaw ing a chlwy angau.

**F144 Mary w John Jones Ty Newydd d 6
Aug 1847 (54)**

Anelais i trwy anialwch – dyrys
I diroedd tywyllwch
Pallai'm nerth a'm prydferthwch
Gwel fy llun gwael yw fy llwch.

*Dewi ab Didymus- Dafydd Thomas (1782-
1863) Llanuwchllyn published 3 englynion
in the "Dysgedydd" 1853 p 468 - all are in
this churchyard.*

**F148 Anne Jones Nantfallen d 21 Nov
1867 (27)**

Gwawr a dy'r pan egyr dorau – ei fedd.
Daw'n fyw o byrth angau
Goruwch oer bridd garachar brau
Y gwel fyd heb glefydau.

*Written by Eben Fardd – Ebenezer Thomas
1803 – 1863 Llanybi Caern*

**F149 Thos Edward Penrhiw d 4 Oct 1875
(62)**

Gwawr a dy'r pan egyr dorau – eu
fedd.
Daw'n fyw o byrth angau
Goruwch oer bridd garachar brau
Y gwel fyd heb glefydau.

**F189 David Thomas Daniel s of David
and Mary Daniel Borth capt
Schooner Mary Jane d 8 Jan 1872
1m.**

Fel eginyn gwyn gwenodd – David
Bach
Dymhor byr, a gwywodd;
Boddlonwn; - yr Hwn a'i' rhodd
Ato'i Hunan a'i tynodd.

Composed by Gwilym Hiraethog, William
Rees 1802 – 1883 Llansannan Denbs and
Liverpool.
The original was dedicated to "Harri bach" –
y gair cyrch

**F190 Mary w Lewis Jones Borth d 14 Feb
1835 (45)**

Blwch i gadw llwch llu – Hoff Anwyl,
Rhai enwog yr Iesu,
Yn hygredd y dyfnfedd du
Hyd awr fawr yr adferu.

**F198 David s Eliza & David Jones
Parkbach d 18 Mar 1879 (14)**

I Ddafydd o'i ddu ofid – yn ifanc
Fe ddaeth nefol ryddid
Wedi myn'd mae o'i wendid
Ai fawr bla i fro heb lid.

Englynion Beddau Ceredigion – Euronwy
James – Gomer 1983

-----O-----

Edited by Vernon Jones